

Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGORTREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 23 Mawrth 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Stephen Beach (**Maer - Cadeirydd**)
Cyng. James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Geraint Woolford ac Emrys Wynne.

201. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

202. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb personol mewn eitemau ar yr Agenda fel ganlyn: Cyng. Stephen Beach, fel aelod; Cyng. Menna Jones, fel aelod o'r Pwyllgor; Cyng. Anne Roberts, fel aelod ac aelod o'r Pwyllgor; a Cyng. Heather Williams, fel yr Is-Gadeirydd ac ni chymerasont ran yn y trafodaethau nac yn y perfynniad ddilynodd.
Eitem Agenda Rhif 210 (a) Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Drysau Agored Sir Ddinbych

203. CYFETHOL AELOD NEWYDD

Mewn ymateb i sedd wag ar y Cyngor, derbyniwyd dau lythyr gan bersonau eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer cyfethol.

PENDERFYNWYD: yn dilyn pleidlais gudd, etholwyd Mrs Heather Williams i wasanaethau ar y Cyngor Tref – bydd yn aelod o'r Pwyllgor Amwynderau. Yna arwyddodd y Datganiad Derbyn Swydd ac i ymglymu a'r Cod Ymddygiad.

204. ADRODDIAD Y MAER

Dyweddodd y Maer ei fod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- 17 Chw Ras Grepog
- 19 Chw Cyfarfod Ffrindiau Nantclwyd y Dre parthed lluniaeth Digwyddiad Elusennol y Maer
- 26 Chw Beirniadu Cystadleuaeth Ffenestr Gwyl Dewi Sant Menter Iaith
- 28 Chw Cinio yn Oriol House
- 1 Maw Cyngerdd Elusennol y Maer yn Nantclwyd Y Dre
- 3 Maw Ymweliad Cyswllt Oed Cynulliad Cymru
- 3 Maw Ymweliad Sgowtiaid
- 20 Maw Dawns Elusennol Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yn Oriol House

205. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan	Gwyl Rhuthun x 2
Cyng. Elisabeth Culshaw	Cyngerdd Elusennol y Maer Nantclwyd Y Dre,
Cyng. June Derry	Ras Grepog
Cyng. Ken Hawkins	Cyngerdd Elusennol y Maer Nantclwyd Y Dre, Smith of Derby parthed Clociau'r Dref.
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Grwp Ffrindiau Cae Ddol
Cyng. Menna Jones	Bore Coffi yn Llys Marchan, Cymdeithas Sioe Rhuthun x 3, Eisteddfod yr Urdd, Ysgol Borthyn, Cist Cymunedol Clwyd..
Cyng. Simeon Jones	Gwyl Rhuthun.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras x 2, Banc Bwyd x 4
Cyng. Anne Roberts	Ras Grepog, Cyfarfod parthed 'Merched mewn Gwleidyddiaeth', Cinio RWF, Cyngerdd Elusennol y Maer Nantclwyd Y Dre, Ymlaen Rhuthun x 2, Fforum dros 50, Pwyllgor Banc Bwyd Dyffryn Clwyd.

206. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2015.

207. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

208. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2015.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

209. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER

Gofynnwyd i'r aelodau ystyred enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer am 2015 / 2016

Enwebwyd Cyng. Anne Roberts yn Faer am 2015 / 16 gan Cyng. Elisabeth Culshaw a'i eilio gan Cyng. Geraint Woolford.

Derbyniwyd dau enwebiad ar gyfer Dirprwy Faer. Yn dilyn pleidlais gudd, enwebwyd Cyng. Geraint Woolford yn Ddirprwy Faer gan Cyng. Ken Hawkins a'i eilio gan Cyng. Emrys Wynne.

210. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref gais gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun am gyfraniad o £1,000.00 tuag at y digwyddiad eleni (yn y gyllideb eisoes) ynghyd a chais am £1,000.00 ychwanegol tuag at diffyg yn yr ariannu.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau'r Cyfraniad Blynyddol o £1,000.00 (yn daladwy yn y Flwyddyn Ariannol nesaf) i'r Mudiad yma gyda gwarant o arian ychwanegol hyd at £1,000.00 tuag at gostau ychwanegol yn dibynnu ar eu hymdrechion codi arian.*

(b) CLWB ROTARY RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at y Rasys Mulod a Diwrnod Hwyl i'w gynnal ar Ddydd Sadwrn, 11 Gorffennaf 2015 yng Nghae Ddol.

PENDERFYNWYD: *gwneud cyfraniad o £500.00 (yn daladwy yn y Flwyddyn Ariannol nesaf) i'r Mudiad yma tuag at y digwyddiad uchod.*

211. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod o'r Is-bwyllgor yma. Aelodaeth: Cyng. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones a Geraint Woolford ynghyd a'r Maer a Dirprwy Faer.

PENDERFYNWYD: *trefnu cyfarfod yn dilyn y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu nesaf.*

212. GRWP LLYWIO RHUTHUN – (GYNT CYDLYNYDDY DREF)

Derbyniodd yr aelodau ddiweddiariad a gofynnwyd iddynt apwyntio dau Gynghorydd Tref ychwanegol ar y Grwp Llywio (cynrychiolwyr presennol yw Cyng. Stephen Beach a Robert Owen-Ellis).

PENDERFYNWYD: *apwyntio Cyng. Anne Roberts ac Emrys Wynne i'r Grwp llywio gyda'r cyfarfod nesaf i'w g ar Ddydd Mercher, 1 Ebrill 2015 yn Neuadd y Dref.*

213. CYLLIDY CYNGOR TREF

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried buddsoddiad o £70,000 yn unol â Strategaeth Buddsoddiad y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD: *trafod y mater ymhellach gyda rhagor o fanylion oddi wrth Banc Iwerddon, Banc Santander a Banc Preifat Allen.*

214. PROSIECT BEIC PWMP CAE DDOL

Derbyniodd yr aelodau rhagor o fanylion parthed y prosiect uchod.

215. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF

Adroddodd y Maer iddo dderbyn llythyr oddi wrth Cyng. Sioned Foulkes yn cyflwyno ei ymddiswyddiad am resymau personol..

PENDERFYNWYD: derbyn yr ymddiswyddiad a bod trefniadau yn cael eu gwneud i apwyntio Cyngorydd Tref newydd.Y Rhybudd Cyfreithiol i ymddangos ar fynedfa Neuadd y Dref am gyfnod o 14 diwrnod ar ol hynny bydd y Cyngor Tref yn llenwi'r sedd drwy gyfethol os na elwir etholiad.

216. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 28^{ain} Chwefror 2015.

PENDERFYNWYD: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.

217. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:

696	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
697	Inland Revenue	Treth ac Yswiriant Gwladol		163.20
698	Cyngor Sir Ddinbych	Goleuadau Nadolig 2014 / 15	*	5,422.25
699	Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad Benthyciad Cyngorus Cae Ddol 4 / 7.		7,880.00
700	Dafydd Williams	Arian parod – stampiau ayyb		24.60
701	Groundworks NorthWest	Cymdeithas Caeau Chwarae Cofeb – Ardal Chwarae	*	1,680.00
702	Cyngor Tref Dinbych	Tocynnau Dawns Elusennol x 2		64.00
703	Dafydd Williams	Cyflog		81.12
704	Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth	Adnewyddu Cofrestru		35.00
705	Y Bedol	{Hysbyseb parthed Dinesydd Da (Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,216.04)		20.00

RHAN DAU

218. CYFLOG CLERCY DREF

Derbyniodd yr aelodau fanylion am gyflog Clerc y Dref

PENDERFYNWYD: derbyn y manylion.

219. DYDDIADY CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref fel Nos Lun, 27 Ebrill 2015.

